Ministry of Justice

# Diwygio Ffioedd Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 16 Hydref 2023

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 27 Tachwedd 2023

Ministry of Justice

# Diwygio Ffioedd Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig

**Ymgynghoriad a gynhyrchir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hefyd ar gael ar https://consult.justice.gov.uk/**

# Ynglŷn â’r ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **I:** | Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at yr ymgyngoreion Statudol a restrir yn Adran 52 o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005. Mae gan yr Arglwydd Ganghellor ddyletswydd statudol i ymgynghori â'r ymgyngoreion hyn ynglŷn â ffioedd yn y Llys.<br><br>Byddem hefyd yn annog ac yn gwahodd defnyddwyr y llysoedd a’r tribiwnlysoedd, y proffesiwn cyfreithiol, y farnwriaeth, y sector cynghori a phawb sydd â diddordeb yn y llysoedd a’r tribiwnlysoedd i ymateb i’r ymgynghoriad hwn. |
| **Hyd:** | O 16/10/2023 tan 27/11/2023 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat arall) at:** | Fees Policy Team<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br><br>E-bost: mojfeespolicy@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Anfonwch eich ymateb erbyn 27/11/2023 at:<br><br>Fees Policy Team<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br><br>E-bost: mojfeespolicy@justice.gov.uk |

# Cynnwys

**Ynglŷn â’r ymgynghoriad hwn** Error! Bookmark not defined.

**Cynnwys** **2**

**Crynodeb Gweithredol** Error! Bookmark not defined.

**Cyflwyniad** Error! Bookmark not defined.

**Amcanion ac Adolygiad o Ffioedd y Goruchaf Lys** Error! Bookmark not defined.

**Y Cynigion**

Cynnig 1: Symleiddio’r strwythur ffioedd 10

Cynnig 2: Cael gwared ar y gwahaniaeth rhwng ffioedd achosion awdurdodaeth ddatganoli a ffioedd achosion sifil 11

Cynnig 3: Cynyddu ffioedd yn ôl chwyddiant hanesyddol 13

Cynnig 4: Adolygu ffioedd arferol a chodiadau 15

Effaith ar gydraddoldeb **Error! Bookmark not defined.**

**Atodiad A – Ffioedd Cyfredol ac Arfaethedig Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig** **166**

**Holiadur** Error! Bookmark not defined.**8**

**Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a’r Gymraeg** **1919**

**Amdanoch chi** **200**

**Manylion cyswllt/Sut i ymateb** **211**

**Egwyddorion ymgynghori** Error! Bookmark not defined.**3**

# Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cynigion y Llywodraeth i ddiwygio'r ffioedd sy'n daladwy yng Ngoruchaf Lys y Deyrnas Unedig.[1] Y cynigion hyn, os cânt eu gweithredu, fydd y gyfres gyntaf o newidiadau i ffioedd yn y Goruchaf Lys ers dros 12 mlynedd. Byddant yn sicrhau adnoddau ychwanegol a fydd yn mynd yn uniongyrchol at gefnogi gwaith y Goruchaf Lys. Wrth wneud hynny, bydd yn cefnogi'r Goruchaf Lys yn ei rôl bwysig fel y llys apêl terfynol ar gyfer achosion sifil yn y Deyrnas Unedig, ac ar gyfer achosion troseddol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

2. Daw'r cynigion hyn yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd yn 2022 o'r ffioedd sy'n daladwy yn y Goruchaf Lys. Eu nod yw cyflawni pedwar amcan, sef:

   a) Sicrhau system syml i ymgeiswyr ei deall ac i'r Goruchaf Lys ei gweinyddu.

   b) Codi incwm wrth ddefnyddwyr y Goruchaf Lys a fydd yn cyfrannu at gostau gweithredu.

   c) Cefnogi sefydlogrwydd ariannol hirdymor y Goruchaf Lys.

   ch) Sicrhau nad yw ffioedd y Goruchaf Lys yn rhwystro mynediad at gyfiawnder.

3. Bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn bodloni'r amcanion hyn. Os cânt eu gweithredu, byddant yn lleihau'r cymhlethdod o fewn y system ffioedd, yn cyfrannu £170 - £210k ychwanegol y flwyddyn i'r Goruchaf Lys i gyflawni ei waith pwysig ac yn sefydlu fframwaith ar gyfer newidiadau i ffioedd yn y dyfodol.

4. Yn gynharach eleni, ymgynghorodd y Llywodraeth ar nifer o newidiadau i'w bolisi cyffredinol ar dalu ffioedd, ac awgrymwyd nifer o newidiadau i'r cynllun Helpu gyda Ffioedd, sy'n cael ei gyflwyno gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi. Rydym hefyd yn bwriadu diweddaru polisi talu ffioedd y Goruchaf Lys yn unol â'r cynigion hyn.

5. Bwriad y Llywodraeth yw gweithredu'r cynigion hyn ar ddiwygio ffioedd y Goruchaf Lys ddechrau'r flwyddyn newydd, yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn.

[1] Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r Goruchaf Lys ac nid ydynt yn cynnwys y ffioedd sy'n daladwy ym Mhwyllgor Barnwrol y Cyfrin Gyngor.

# Cyflwyniad

### Hanes y Goruchaf Lys

6. Y Goruchaf Lys yw llys apêl terfynol holl achosion sifil y Deyrnas Unedig, ac achosion troseddol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Cafodd ei sefydlu yn dilyn Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 yn lle Pwyllgor Apeliadol Tŷ'r Arglwyddi ar 1 Hydref 2009. Mae'r Goruchaf Lys yn gwrando apeliadau ar bwyntiau cyfreithiol y gellir dadlau yn eu cylch, yn benodol mewn achosion o'r pwysigrwydd cyhoeddus a chyfansoddiadol mwyaf, ac mae'n chwarae rôl bwysig yn natblygiad y gyfraith yn y Deyrnas Unedig. Mae'n gwrando achosion ar faterion datganoli o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf yr Alban 1998 a Deddf Gogledd Iwerddon 1998.

### Cyllido'r Goruchaf Lys

7. Mae'r Goruchaf Lys yn gwbl annibynnol ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ond o dan adran 50(1) o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, mae gan yr Arglwydd Ganghellor ddyletswydd statudol i sicrhau bod y Goruchaf Lys yn cael yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Gellir cyflawni'r ddyletswydd hon drwy bennu ffioedd y Goruchaf Lys. Mae adran 52(1) o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 yn darparu ar gyfer yr Arglwydd Ganghellor, gyda sêl bendith Trysorlys Ei Fawrhydi, i ragnodi ffioedd sy'n daladwy mewn perthynas ag unrhyw beth y mae'r Goruchaf Lys yn ymdrin ag ef.

8. Wrth bennu ffioedd ar gyfer y Goruchaf Lys, mae gan yr Arglwydd Ganghellor ddyletswydd statudol o dan adran 52(3) o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 i sicrhau nad yw mynediad i'r llysoedd yn cael ei wrthod. Mae'r ddyletswydd hon yn sail i'r angen am strwythur ffioedd sy'n deg, yn gymesur, ac nad yw'n atal ymgyfreithwyr rhag dilyn eu hawliau cyfreithiol. Mae'r Goruchaf Lys yn gweithredu cynllun talu ffioedd, sy'n cyd-fynd â'r cynllun talu ffioedd, Help gyda Ffioedd, a weinyddir gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi. Mae cynllun talu ffioedd y Goruchaf Lys yn caniatáu i ffioedd gael eu talu'n llawn neu'n rhannol ar gyfer ymgyfreithwyr incwm isel, y rhai sy'n derbyn budd-daliadau penodol a'r rheini sydd ag ychydig neu ddim cynilion. Yn ogystal, mae gan Brif Weithredwr y Goruchaf Lys y disgresiwn i leihau neu dalu ffi os ydynt yn fodlon bod amgylchiadau eithriadol sy'n cyfiawnhau gwneud hynny, neu lle bo cais am ganiatâd i ymyrryd mewn apêl yn cael ei ffeilio gan sefydliad elusennol neu ddielw sy'n ceisio gwneud cyflwyniadau er budd y cyhoedd.

9. Mae’r polisi cyffredinol ar godi ffioedd ar draws yr holl Lywodraeth wedi'i nodi yn llawlyfr Trysorlys Ei Fawrhydi ‘Rheoli Arian Cyhoeddus’, sy'n nodi mai'r dull safonol yw pennu ffioedd i adennill cost lawn y gwasanaeth. Mae gwahaniaeth pwysig, serch hynny, yn berthnasol o ran adennill costau i'r Goruchaf Lys o ystyried perthnasedd ei benderfyniadau i bawb yn y Deyrnas Unedig a’i rôl hollbwysig yn natblygiad y gyfraith yn y wlad hon. Am y rheswm hwn, cytunwyd pan sefydlwyd y Goruchaf Lys y byddai costau apeliadau sifil y Goruchaf Lys yn cael eu hysgwyddo gan y trethdalwr drwy gyfraniadau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban a Thrysorlys Ei Fawrhydi ac ymgyfreithwyr y Goruchaf Lys. Nid oes unrhyw ffioedd yn daladwy mewn achosion troseddol. Mae’r taliadau sy’n daladwy yn y Goruchaf Lys a'r cynllun ar gyfer talu neu eithrio'r ffioedd hynny, wedi'u nodi yng Ngorchymyn Ffioedd y Goruchaf Lys 2009. Cafodd y Gorchymyn hwn ei ddiwygio ddiwethaf gan Orchymyn Ffioedd y Goruchaf Lys (Diwygio) 2011.

### Ffioedd cyfredol y Goruchaf Lys

10. O fewn y Gorchymyn Ffioedd, codir 17 o ffioedd gwahanol cyn ac yn ystod achosion. Mae'r ffioedd sy'n gysylltiedig ag achos arferol fel a ganlyn:

    a. **Ffioedd apelydd**: Yn y rhan fwyaf o achosion, mae’r parti sy’n cychwyn yr apêl, sy’n cael ei alw’n apelydd, yn dechrau’r broses drwy wneud cais am ganiatâd i apelio (mae’r ffi yn £1,000). Os yw’r Goruchaf Lys yn cytuno i wrando’r apêl, mae’n ofynnol i’r apelydd hysbysu’r Goruchaf Lys o’u bwriad i symud ymlaen (£800). Os yw apêl eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth gan lys is, yna nid oes angen caniatâd y Goruchaf Lys a gall yr apelydd gyflwyno hysbysiad ffurfiol o’r apêl (£1,600). Yn ddiweddarach, unwaith y bydd pob parti wedi dod i gonsensws ar ffeithiau a materion yr achos, bydd yr apelydd yn cyflwyno datganiad y cytunwyd arno, ynghyd ag atodiad o ddogfennau hanfodol i’r Goruchaf Lys (£4,820).

    b. **Ffioedd ymatebydd**: Dyma'r ffioedd sy'n daladwy gan y parti neu bartïon y cyflwynir yr apêl yn eu herbyn, sef yr ymatebydd. Gall yr ymatebydd ddewis gwrthwynebu'r apêl yn ystod y cam caniatâd (£160) ac yn ystod y cam apelio (£320). Ni all ymatebydd nad yw'n ffeilio gwrthwynebiad i'r cais am ganiatâd fod yn rhan o’r cais hwnnw. Mewn digwyddiad o'r fath, byddai achos yn parhau heb yr ymatebydd.

    c. **Ffioedd gweithdrefnol**: Caiff y rhain eu talu os oes angen camau ychwanegol ym mhroses y Goruchaf Lys lle mae angen penderfyniad y Goruchaf Lys. Er enghraifft, os yw parti am wrthwynebu penderfyniad

Cofrestrydd ynghylch a oes gan y Goruchaf Lys awdurdodaeth i dderbyn cais am ganiatâd i apelio, codir ffi am adolygu'r penderfyniad gan un Ynad (£1,500). Yn yr un modd, os yw trydydd parti am gyfrannu at achos, codir ffi am gyflwyno eu cais i ymyrryd (£800).

ch. **Hawliad am ffioedd costau**: Lle bo'r Goruchaf Lys wedi gwneud gorchymyn am gostau, gall y parti y mae'r costau'n ddyledus iddo ffeilio hawliad am gostau (2.5% o'r swm a hawlir). Mae hawliad am gostau yn gais i'r Goruchaf Lys gynnal asesiad manwl o'r costau, ac unwaith y bydd hwn wedi'i gwblhau mae ffi bellach yn daladwy i ardystio'r swm (2.5% o'r swm a ganiateir).

d. **Ffioedd gweinyddol**: Yn ogystal â'r uchod, efallai y bydd ffioedd gweinyddol sy'n berthnasol i achos. Er enghraifft, gall parti ofyn am gopi ardystiedig o ddogfen (£20).

11. Mae'r Goruchaf Lys hefyd yn gwrando achosion datganoli, sy'n cynnwys dyfarnu ar gymhwysedd deddfwriaethol gweinyddiaethau datganoledig y Deyrnas Unedig. Mae'r un mathau o ffioedd yn berthnasol ond ar gyfradd is, a cheir ffi ar wahân yn gysylltiedig â chyfeirio mater at y Goruchaf Lys (£200).

12. Nid yw ffioedd y Goruchaf Lys wedi newid ers eu cyflwyno yn 2009.[2] Yr unig eithriad fu un cynnydd i'r ffi Caniatâd i Apelio yn 2011. Gwnaed hyn i adlewyrchu'n well y lefel uwch o waith a wneir wrth weinyddu ceisiadau am Ganiatâd i Apelio. Rhwng Ebrill 2011 ac Ebrill 2023, cododd lefel prisiau cyffredinol y Deyrnas Unedig 40%, fel y'i diffinnir gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Mae hyn wedi arwain at ostyngiad sylweddol yng ngwerth ffioedd mewn termau real. Os nad yw incwm ffioedd yn codi i gyd-fynd â chwyddiant, gallai gwasanaethau'r Goruchaf Lys gael eu heffeithio, gyda mwy o bwysau ar y trethdalwr i roi cymhorthdal i'r Goruchaf Lys.

13. Felly mae'r Llywodraeth yn argymell cyfres o ddiwygiadau i godi arian i helpu i adennill rhai o gostau rhedeg y Goruchaf Lys oddi wrth ymgyfreithwyr.

## Cyfnod ymgynghori

14. Mae'r ymgynghoriad hwn yn chwilio am farn ynglŷn â'r cynigion i ddiwygio ffioedd y Goruchaf Lys. Mae'r ymgynghoriad yn para am gyfnod o 6 wythnos ac yn dod i ben ar 27 Tachwedd 2023.

---

[2] Pan gafodd ffioedd y Goruchaf Lys eu pennu am y tro cyntaf, fe'u gosodwyd ar lefelau prisiau 2010/11. O'r pwynt hwn rydym yn mesur y newid mewn chwyddiant CPI.

# Amcanion ac Adolygiad o Ffioedd y Goruchaf Lys

15. Wrth bennu ffioedd ar gyfer y Goruchaf Lys, mae gan y Llywodraeth y pedwar amcan canlynol:

- **Amcan 1 – Cael system syml i ymgeiswyr ei deall ac i'r Goruchaf Lys ei gweinyddu**: Dylai'r rheini sy'n defnyddio'r Goruchaf Lys ei chael yn hawdd deall y ffioedd perthnasol ar gyfer eu hachosion. Bydd hyn yn galluogi cynllunio ariannol gwell a phenderfyniadau gwybodus. At hynny, dylai'r strwythur ffioedd fod yn syml i staff ei weinyddu, gan hwyluso system sy'n cael ei rheoli'n effeithlon.

- **Amcan 2 – Codi incwm wrth ddefnyddwyr y Goruchaf Lys a fydd yn cyfrannu tuag at gostau gweithredu**: Dylai'r Goruchaf Lys gynnal model ariannu cymysg. O ystyried ei bwysigrwydd cyfansoddiadol, dylai cyllid y Goruchaf Lys ddod yn bennaf o gyfraniadau o wahanol awdurdodaethau'r Deyrnas Unedig, yn ogystal ag yn uniongyrchol wrth Drysorlys Ei Fawrhydi. Serch hynny, dylai hefyd dderbyn rhywfaint o gyfraniad wrth y rhai sy'n defnyddio'r Goruchaf Lys lle gallant.

- **Amcan 3 – Cefnogi sefydlogrwydd ariannol hirdymor y Goruchaf Lys**: Mae costau rhedeg y Goruchaf Lys yn amodol ar chwyddiant a byddant yn codi dros amser. Dylai'r Goruchaf Lys allu mynd i'r afael â'r newidiadau hyn a chynllunio ar eu cyfer yn y hirdymor.

- **Amcan 4 – Sicrhau nad yw ffioedd y Goruchaf Lys yn rhwystro mynediad at gyfiawnder**: Mae gan yr Arglwydd Ganghellor ddyletswydd i roi sylw i'r egwyddor na ddylid gwrthod mynediad i'r llysoedd wrth osod ffioedd. Mae hyn yn golygu y dylai ffioedd fod yn fforddiadwy i ymgyfreithwyr a bod cymorth ariannol ar gael i gefnogi unigolion ar incwm a chynilion isel.

16. Yn 2022 fe wnaethom gynnal adolygiad o'r ffioedd cyfredol ochr yn ochr â'r amcanion hyn, a chanfuwyd y materion canlynol:

    a. Gellid symleiddio rhai pwyntiau codi ffioedd. Er enghraifft, mae pwyntiau talu lluosog ar gyfer camau mewn achos y gellid eu talu ar yr un pryd. Gall hyn ei gwneud yn anodd i ymgyfreithwyr wybod pa ffioedd sy'n berthnasol i'w sefyllfa ac mae'n golygu gwaith gweinyddol ychwanegol ar gyfer ymgyfreithwyr a staff y Goruchaf Lys.

b. Ceir rhestr ar wahân o werthoedd ffioedd is ar gyfer achosion awdurdodaeth ddatganoli o’i gymharu ag unrhyw achos arall. Mae'r gwahaniaeth hwn yn anodd ei gyfiawnhau. Mae'r gwaith sydd ei angen i weinyddu'r achosion hyn yn debyg i unrhyw apêl arall, ond nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn lefel y ffi a godir.

c. Nid yw ffioedd wedi’u newid ers 2011. Yn ystod y cyfnod hwn gostyngodd gwerth y ffioedd hyn mewn termau real yn sylweddol oherwydd chwyddiant. Mae hyn wedi arwain at bwysau cynyddol ar y trethdalwr i gefnogi’r broses o redeg y Goruchaf Lys. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw broses ar gyfer addasu ffioedd yn rheolaidd er mwyn rhoi ystyriaeth i gostau cynyddol chwyddiant.

# Y Cynigion

17. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'n fanwl ein cynigion i ddiwygio ffioedd y Goruchaf Lys. Dyma ganlyniad ein hadolygiad ac maent yn ceisio cyflawni ein hamcanion a nodir ym mharagraff 15.

## Cynnig 1: Symleiddio'r strwythur ffioedd

18. Sefydlwyd strwythur ffioedd presennol y Goruchaf Lys am y tro cyntaf yn 2009. Cyn hynny, cynigiwyd y gwasanaethau gan Bwyllgor Apeliadol Tŷ'r Arglwyddi, a gafodd ei ddisodli gan y Goruchaf Lys, ac sydd heb newid ers 2000. Drwy gydol y cyfnod hwn, nid yw'r strwythur ffioedd na'r derminoleg wedi'u diwygio.

19. Yn unol â'n hamcan ar gyfer system syml i ymgeiswyr ei deall, ac i staff ei gweinyddu, rydym yn cynnig y newidiadau canlynol:

    a. **Cyfuno'r ffioedd a ddefnyddir i ddechrau apêl (ffioedd 2.1 neu 2.2) gyda'r ffi sy'n cael ei thalu wrth gyflwyno ffeithiau allweddol yr apêl (ffi 2.5)**: I ddechrau apêl yn y Goruchaf Lys, bydd ffioedd 2.1 neu 2.2 yn daladwy, yn dibynnu a oedd angen caniatâd i apelio ar y cais i apelio neu beidio. Unwaith y bydd apêl wedi dechrau, mae'n ofynnol i'r apelydd ffeilio datganiad o ffeithiau a materion, lle mae ffi 2.5 yn berthnasol. Rydym yn argymell cyfuno ffioedd 2.1 a 2.5 gyda'i gilydd yn ogystal â ffi 2.2 a 2.5. Mae angen ffeilio datganiad o ffeithiau a materion ar gyfer pob apêl. Byddai cyfuno'r ffioedd hyn yn un ffi ymlaen llaw yn symleiddio'r strwythur ffioedd ac yn galluogi i waith y Goruchaf Lys fod yn fwy effeithlon.

    b. **Cyfuno a chodi'r ffioedd ar gyfer costau (ffi 4.1 a 4.2)**: Rydym yn argymell cyfuno'r ffi am ofyn i'r Goruchaf Lys gael yr ochr arall i dalu am eich costau cyfreithiol a'r asesiad sy'n gysylltiedig â hyn gyda'r ffi am gael gweinyddwr swyddogol y Goruchaf Lys i gadarnhau ac ardystio swm y costau cyfreithiol. Y cyntaf o'r ddau hawliad am ffioedd costau yw ffi 4.1, sydd wedi'i gosod ar 2.5% o'r swm a hawlir ac sy'n daladwy pan wneir taliad i'r Goruchaf Lys am gynnal asesiad manwl o'r costau. Yr ail yw ffi 4.2, wedi'i gosod ar 2.5% o'r swm a ganiateir. Mae hwn yn daladwy ar ôl yr asesiad manwl, y gwrandawiad costau ac unrhyw wrandawiadau apêl, er mwyn i'r hawliad costau gael ei ardystio. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith sy'n ymwneud â hawliadau am gostau, gan gynnwys y gwrandawiad costau ac unrhyw apeliadau ar ôl hynny yn digwydd cyn i ffi 4.2 gael ei sbarduno. Rydym yn argymell gosod un ffi gyfunol ar 4% o swm y costau

cyfreithiol. Mae hyn er mwyn sicrhau y gall y Goruchaf Lys adennill mwy o'r costau sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r hawliadau hyn. Nid yw'r cynnydd arfaethedig yn cyfrif am y 5% llawn, i ystyried y ffaith bod hawliadau am gostau yn cael eu tynnu'n ôl hanner ffordd drwodd mewn nifer o achosion, neu fod y costau a ddyfernir yn is na'r rhai a hawliwyd ar y dechrau. Rydym wedi asesu na fydd pennu'r ffi ar 4% yn arwain at y ffi hon yn adennill mwy na'r gost lawn o weinyddu'r hawliadau hyn i'r Goruchaf Lys.[3]

**Cwestiwn 1:** A ydych yn cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig i symleiddio ffioedd y Goruchaf Lys?

## Cynnig 2: Cael gwared ar y gwahaniaeth rhwng ffioedd achosion awdurdodaeth ddatganoli a ffioedd achosion sifil

20. Mae dwy gyfradd ffioedd ar wahân ar gyfer yr un gwasanaeth rhwng achosion sifil ac achosion awdurdodaeth ddatganoli, gyda'r awdurdodaeth ddatganoli wedi'i phennu ar gyfradd is. Mae'r achosion awdurdodaeth ddatganoli hyn yn rhai sy'n cael eu gwrando gan y Goruchaf Lys ac sy'n ymwneud â phwerau a swyddogaethau'r awdurdodau deddfwriaethol a gweithredol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn wreiddiol, roedd yr 'awdurdodaeth ddatganoli' yn perthyn i Bwyllgor Barnwrol y Cyfrin Gyngor (JCPC) cyn cael ei throsglwyddo i'r Goruchaf Lys pan gafodd ei sefydlu. Mae'r gwahaniaeth yng ngwerth y ffioedd a godir mewn achosion datganoli a gweddill y Goruchaf Lys o ganlyniad i'r ffaith bod ffioedd y JCPC yn llawer is na'r rhai a godwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi (gweler Atodiad A am y gwahaniaeth rhwng y ddwy set o ffioedd a godir).

21. Rydym yn argymell dileu'r gwahaniaeth. Bydd y cynnig hwn yn symleiddio'r strwythur ffioedd ac yn sicrhau bod y ffioedd a godir yn adlewyrchu cost darparu'r gwasanaeth yn well. Mae'r gost weinyddol a'r amser barwnol mewn achosion datganoli yr un peth ag achosion cymharol eraill sydd heb eu datganoli.

22. Nid ydym o'r farn bod risg o atal mynediad at gyfiawnder drwy dalu'r ffioedd is hyn sy'n talu ffioedd yr achosion datganoli am ddau reswm. Yn gyntaf, mae gan y Goruchaf Lys fecanweithiau effeithiol i sicrhau bod unigolion sy'n methu â fforddio ffioedd yn gallu cael mynediad at y Goruchaf Lys. Mae system talu ffioedd yn ei lle i sicrhau bod mynediad at gyfiawnder yn cael ei ddiogelu ar gyfer ymgyfreithwyr sydd angen cymorth gyda'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd. Nid ydym yn gweld unrhyw reswm pam y byddai unrhyw ymgyfreithwyr sy'n cyflwyno hawliadau'n

[3] Ni wnaeth yr hawliad drutaf y mae'r Goruchaf Lys wedi'i dderbyn yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf adennill y gost lawn i'r Goruchaf Lys wrth weinyddu hawliad am gost yr achos.

ymwneud ag awdurdodaeth ddatganoli'r llys yn fwy agored i niwed yn ariannol nag ymgyfreithwyr sy'n cyflwyno apeliadau sifil. Yn ail, bydd effaith y newid hwn yn gyfyngedig gan fod amlder ceisiadau awdurdodaeth ddatganoli yn isel. Cafwyd cyfanswm o 10 o'r ceisiadau hyn yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf.

**Eithriad: ffioedd ar gyfer ffeilio mater i'w gyfeirio (ffi 2.3)**

23. Un ffi sy'n daladwy mewn achosion awdurdodaeth ddatganoli, sy'n eithriadol gan nad oes ganddi ffi uwch gyfatebol ar gyfer achosion sifil. Dyma ffi 2.3 (ffeilio mater i'w gyfeirio i'r Goruchaf Lys o dan ei awdurdodaeth ddatganoli), sy'n £200 ar hyn o bryd. Mae'r math hwn o gais yn ymwneud â'r Goruchaf Lys yn dyfarnu ar gymhwysedd deddfwriaethol gweinyddiaethau datganoledig y Deyrnas Unedig. Gan nad oes gan y ffi hon ffi sifil gyfatebol, nid ydym yn argymell y dylid ei symleiddio ar hyd y llwybrau a argymhellir uchod. Serch hynny, rydym yn argymell y newidiadau canlynol:

    a. **Ehangu cwmpas y ffi i gynnwys cyfeirio materion mewn perthynas â chyfraith achosion yr UE a ddargedwir:** Derbyniodd Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 ("Deddf REUL"), Gydsyniad Brenhinol ar 29 Mehefin 2023. Mae adran 6 o Ddeddf REUL yn diwygio Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i gynnwys darpariaeth ar gyfer creu gweithdrefn gyfeirio er mwyn i lysoedd a swyddogion y gyfraith gyfeirio cwestiynau ynghylch gwyro oddi wrth gyfraith achosion a ddargedwir at uwch lysoedd y DU. Nid yw'r darpariaethau hyn wedi dechrau eto ond rhagwelwn unwaith y byddant wedi dechrau, y bydd unrhyw achosion i'w cyfeirio at y Goruchaf Lys o dan y darpariaethau hyn yn cynnwys adnoddau gweinyddol a gweithredol tebyg, fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd mewn materion i'w cyfeirio a ffeiliwyd o dan awdurdodaeth ddatganoli'r Goruchaf Lys. Felly, rydym yn ystyried y dylai'r ffi ar gyfer ffeilio mater a gyfeiriwyd (fel y'i codwyd) fod yr un mor berthnasol i faterion a gyfeiriwyd i'w ffeilio mewn perthynas â chyfraith achosion yr UE a ddargedwir.

    b. **Cynyddu'r ffi i adlewyrchu'r costau dan sylw yn well, a'i chodi ochr yn ochr â ffioedd eraill:** Rydym wedi asesu'r costau gweinyddol a gweithredol dan sylw mewn achos sy'n cael ei gyfeirio ac maent yn cyfateb i'r rhai mewn achos apêl. Yn unol â'r dull a gynigir ar gyfer ffioedd eraill (yn unol â chynnig 3), rydym yn argymell cynyddu'r ffi hon i adlewyrchu'r costau hyn yn well. Bydd y newid yn y ffi yn adlewyrchu'r gost o weinyddu'r achosion hyn yn well ac yn caniatáu i'r Goruchaf Lys adennill mwy o'r costau hyn wrth bartïon sy'n dod ag achosion sy'n cael eu cyfeirio gerbron. Nodir y ffi arfaethedig yn Atodiad A.

24. Bydd yr ymgyfreithwyr a fydd yn atebol i dalu'r ffi am ffeilio achosion sy'n cael eu cyfeirio i'r Goruchaf Lys wastad naill ai'n Lywodraeth y DU neu weinyddiaeth ddatganoledig. Pan fydd achos yn cael ei gyfeirio gan lys is neu dribiwnlys nid oes ffi yn daladwy. Am y rheswm hwn, nid ydym yn credu bod perygl o atal mynediad at gyfiawnder drwy gynyddu'r ffi hon.

**Cwestiwn 2:** Ar wahân i ffi 2.3, a ydych yn cytuno y dylid dileu'r strwythur ffioedd ar gyfer achosion datganoli, fel bod yr un ffi yn daladwy ar gyfer yr achosion hyn ag ar gyfer apeliadau sifil eraill? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 3:** A ydych yn cytuno y dylai'r ffi am achosion datganoli sy'n cael eu cyfeirio (ffi 2.3) gael ei chodi i ganiatáu i'r Goruchaf Lys adennill mwy o'r costau i weinyddu achosion o'r fath? A ydych yn cytuno y dylid ehangu cwmpas y ffi hon fel ei bod hefyd yn berthnasol i achosion sy'n cael eu cyfeirio ar gyfraith achosion yr UE a ddargedwir?

## Cynnig 3: Cynyddu ffioedd yn ôl chwyddiant hanesyddol

25. Ar wahân i'r cynnydd yn y ffi Caniatâd i Apelio yn 2011, mae lefel ffioedd y Goruchaf Lys wedi bod yn sefydlog ers eu cyflwyno. Nid ydynt wedi'u newid i roi ystyriaeth i chwyddiant, sydd wedi arwain at ddirywiad yng ngwerth y ffioedd hyn mewn termau real. Yn ei dro, mae hyn wedi cynyddu'r pwysau tuag at lefel uwch o gymhorthdal trethdalwyr ar gyfer y Goruchaf Lys. Yn 2021/22, roedd y ffioedd yn £530k o incwm ochr yn ochr â £13.8m o gostau rhedeg y Goruchaf Lys. Roedd yr incwm hwn yn 4% o gostau rhedeg y Goruchaf Lys, gyda'r mwyafrif yn cael eu cwmpasu drwy gyfraniadau awdurdodaethau'r Deyrnas Unedig a Thrysorlys Ei Fawrhydi.

26. I sicrhau adnoddau ar gyfer gwaith y Goruchaf Lys, rydym yn argymell codi'r ffioedd i ystyried chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) hanesyddol. Bydd hyn yn cynnwys chwyddiant o Ebrill 2011, neu ddyddiad y newid diwethaf os yw'n hwyrach, hyd at Fawrth 2023, a bydd yn golygu codiad o 40% mewn ffioedd. Nid yw hyn yn gynnydd termau real o'r ffioedd a godwyd yn 2011. Amcangyfrifir y bydd y cynnig hwn yn creu £170-210k ychwanegol y flwyddyn o ran incwm ffioedd i'r Goruchaf Lys. Mae Atodiad A yn nodi symiau'r ffioedd arfaethedig gyda'r strwythur ffioedd newydd wedi'i dalgrynnu i lawr i'r £5 agosaf.

27. Wrth bennu ffioedd, rhaid i'r Arglwydd Ganghellor roi sylw i'r egwyddor na ddylid gwrthod mynediad i'r llysoedd. Rydym wedi ystyried effaith y newidiadau hyn ac wedi dod i'r casgliad eu bod yn gyson â'r egwyddor hon. Daethpwyd i'r farn hon am dri rheswm.

    a. Mae gan y Goruchaf Lys fecanweithiau effeithiol i sicrhau y gall unigolion na allant fforddio ffioedd gael mynediad at y Goruchaf Lys, a bydd y

mecanweithiau hyn yn diogelu ymgyfreithwyr sydd angen cymorth gyda'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd. Yn gyntaf, ceir cynllun talu ffioedd statudol sy'n gwneud darpariaethau i dalu ffioedd yn unol â modd ariannol yr ymgyfreithiwr. Mae pob unigolyn sydd ar fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd yn gallu gwneud cais i'r Goruchaf Lys am ddim. Er y bydd y trothwyon penodol yn amrywio yn dibynnu ar faint yr aelwyd, mae'r cynllun hefyd yn cynnig cymorth ariannol i aelwydydd sy'n ennill hyd at £70k. Yn ail, mae gan Brif Weithredwr y Goruchaf Lys y disgresiwn i leihau neu dalu ffi os ydynt yn fodlon bod amgylchiadau eithriadol sy'n cyfiawnhau gwneud hynny, neu lle mae sefydliad elusennol neu ddielw yn ceisio gwneud cyflwyniadau er budd y cyhoedd. Canfu adolygiad o ddata achosion mewnol y Goruchaf Lys, a gwmpasodd 18 mis o achosion, fod 19% o apelyddion wedi derbyn cymorth ariannol ar gyfer eu hachosion – bydd y garfan hon yn parhau i gael cymorth ac ni fyddai'r cynigion hyn yn effeithio arnynt.

b. Ar gyfer y rheini a fyddai'n talu'r ffioedd uwch, rydym o'r farn bod y cynnydd yn fforddiadwy. Roedd gweddill y 81% o ymgyfreithwyr yn sampl yr adolygiad naill ai'n fusnesau, llywodraethau, neu unigolion a oedd yn gwneud defnydd o Gwnsler y Brenin i hybu eu hapêl.[4] Rydym yn asesu bod gan yr ymgyfreithwyr hyn y gallu i ysgwyddo'r ffi uwch, gan fod y ffioedd, hyd yn oed pan gânt eu cynyddu fel yr argymhellir, yn parhau i fod yn gyfran gymharol fach o'u cost gyffredinol o ymgyfreitha.

c. Mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori ar gyfres o gynigion i wella'r cynllun talu ffioedd sy'n berthnasol ar hyn o bryd i lysoedd a thribiwnlysoedd a weinyddir gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi.[5] Y prif newid yw codi'r trothwyon incwm ar gyfer pennu cymhwysedd. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno'r diwygiadau hyn i'r Goruchaf Lys. Byddai'n effeithio ar ymestyn argaeledd cymorth ariannol i aelwydydd sy'n uwch i fyny'r dosbarthiad incwm.

**Cwestiwn 4:** A ydych yn cytuno y dylem geisio cynyddu gwerth ffioedd y Goruchaf Lys yn ôl chwyddiant i gefnogi gwaith y Goruchaf Lys? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 5:** A oes unrhyw ffioedd a amlinellir yn y papur hwn na ddylid eu cynyddu yn ôl chwyddiant hanesyddol?

[4] Cafwyd un achos a oedd yn eithriad i hyn. Heb ddatgelu hunaniaeth a chynnwys y cais, rydym yn fodlon ei fod yn fater ynysig.

[5] Gellir dod o hyd i'r ymgynghoriad yn: www.gov.uk/government/consultations/revising-the-help-with-fees-remission-scheme

## Cynnig 4: Adolygu ffioedd arferol a chodiadau

28. Mae sefydlogrwydd ariannol hirdymor y Goruchaf Lys yn hanfodol er mwyn iddo weithredu’n effeithlon a chynaliadwy. I sicrhau hyn, rydym yn argymell yr egwyddor o adolygu ac addasu ffioedd o bryd i'w gilydd i gyd-fynd â chwyddiant. Bydd hyn yn atal gwerth ffioedd rhag gostwng mewn termau real. Rydym yn cynnig cyfnod o bob dwy flynedd fel cyfnod addas o amser.

29. Byddai’r cynnig hwn o fudd i’r Goruchaf Lys am dri rheswm. Yn gyntaf, drwy ddiweddaru ffioedd yn rheolaidd er mwyn ystyried chwyddiant, gall y Goruchaf Lys sicrhau bod incwm ffioedd yn parhau i gyfrannu at gostau gweinyddol a gweithredol y Goruchaf Lys. Yn ail, byddai diweddaru ffioedd yn amlach yn debygol o olygu y byddai pob newid unigol yn gymharol fach, a fyddai’n haws i ymgyfreithwyr ei reoli. Yn drydydd, bydd hyn yn gwella’r broses o gynllunio a dyrannu adnoddau o fewn y Goruchaf Lys, yn ogystal ag ar gyfer gweithwyr cyfreithiol proffesiynol ac ymgyfreithwyr a all wedyn ragweld newidiadau i ffioedd yn well yn y dyfodol.

**Cwestiwn 6:** A ydych yn cytuno gyda’r egwyddor y dylai ffioedd y Goruchaf Lys gael eu haddasu’n rheolaidd yn ôl chwyddiant er mwyn cefnogi sefydlogrwydd ariannol hirdymor y Goruchaf Lys? Rhowch resymau dros eich ateb.

## Effaith ar gydraddoldeb

30. Mae’r Llywodraeth wedi cyhoeddi datganiad cydraddoldeb ochr yn ochr â’r ymgynghoriad hwn. Mae’r datganiad hwn yn amlinellu ein tystiolaeth o effaith y newid arfaethedig ar gydraddoldeb. I grynhoi, nid ydym yn asesu bod risg o wahaniaethu uniongyrchol o ganlyniad i'r cynigion hyn. Rydym yn asesu ei bod yn debygol y bydd gor-gynrychiolaeth o rai grwpiau gwarchodedig ymhlith yr ymgyfreithwyr yn y Goruchaf Lys, ond o ystyried eu lle yn y dosbarthiad incwm, rydym yn eu hystyried yn fwy abl i fforddio unrhyw ffioedd uwch. Lle nad yw hynny’n wir, rydym yn ystyried y mesurau lliniaru a amlinellir ym mharagraff 26 i roi cymorth digonol er mwyn sicrhau mynediad at gyfiawnder ac atal effaith andwyol anghymesur ar y rhai â nodweddion gwarchodedig. Yn gyffredinol, rydym o'r farn bod y newidiadau yn ddull cymesur o gyflawni nod dilys o sicrhau bod y Goruchaf Lys yn cael adnoddau digonol drwy gyfraniadau gan ymgyfreithwyr a’r trethdalwyr.

**Cwestiwn 7:** Yn dilyn dadansoddiad o'r dystiolaeth sydd ar gael rydym wedi dod i'r casgliad na fydd y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd yn effeithio’n anghymesur ar unrhyw grŵp oherwydd y polisi talu ffioedd sydd ar waith yn y Goruchaf Lys. A ydych yn ystyried y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar unigolion â nodweddion gwarchodedig? Rhowch resymau dros eich ateb.

# Atodiad A –Ffioedd Cyfredol ac Arfaethedig Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig

| Ffi | Ffi gyfredol (sifil) | Ffi gyfredol (datganoli) | Ffi arfaethedig |
|---|---|---|---|
| **1 Cais am ganiatâd i apelio** | | | |
| 1.1 Wrth ffeilio cais am ganiatâd i apelio | £1,000 | £400 | **£1,390** |
| 1.2 Wrth ffeilio hysbysiad o wrthwynebiad i gais am ganiatâd i apelio | £160 | £160 | **£220** |
| **2 Apeliadau etc.** | | | |
| 2.1 Wrth ffeilio hysbysiad o dan reol 18(1)(c) o Reolau 2009 o'r bwriad i fwrw ymlaen ag apêl | £800 | £400 | ***£7,855** |
| 2.2 Wrth ffeilio hysbysiad i apelio | £1,600 | £400 | ****£8,975** |
| 2.3 Wrth ffeilio achos sy'n cael ei gyfeirio o dan awdurdodaeth ddatganoli y Goruchaf Lys*<br>** Nid oes ffi yn daladwy pan gyflwynir yr achos sy'n cael ei gyfeirio gan lys* | Ddim yn gymwys | £200 | *****£7,015** |
| 2.4 Wrth ffeilio hysbysiad o dan reol 21 (1) o Reolau 2009 (cydnabyddiaeth gan yr ymatebydd) | £320 | £160 | **£445** |
| 2.5 Wrth ffeilio datganiad o ffeithiau a materion perthnasol ac atodiad o ddogfennau hanfodol | £4,820 | £800 | *Tynnu'r ffi a'i chyfuno â 2.1 – 2.2* |
| **3 Ceisiadau gweithdrefnol** | | | |
| 3.1 Wrth ffeilio cais i adolygu penderfyniad y cofrestrydd | £1,500 | £200 | **£2,095** |
| 3.2 Wrth ffeilio cais am ganiatâd i ymyrryd mewn apêl | £800 | £200 | **£1,115** |

| Ffi | Ffi gyfredol (sifil) | Ffi gyfredol (datganoli) | Ffi arfaethedig |
|---|---|---|---|
| 3.3 Wrth ffeilio unrhyw gais gweithdrefnol arall | £350 | £200 | **£485** |
| 3.4 Wrth ffeilio hysbysiad o wrthwynebiad i gais gweithdrefnol | £150 | £150 | **£205** |
| **4 Costau** | | | |
| 4.1 Wrth gyflwyno cais am gostau | 2.5% o'r swm a hawliwyd | 2.5% o'r swm a hawliwyd | **4% o'r swm a hawliwyd** |
| 4.2 Wrth i'r Cofrestrydd ardystio o dan reol 52 o'r costau a aseswyd | 2.5% o'r swm a ganiateir | 2.5% o'r swm a ganiateir | *Tynnu'r ffi a'i chyfuno'n rhannol â 4.1* |
| **5 Copïo** | | | |
| 5.1 Wrth ofyn am gopi o ddogfen (ac eithrio lle bo ffi 5.2 neu 5.3 yn berthnasol) –<br>(a) Am ddeg tudalen neu lai<br>(b) Am bob tudalen wedi hynny | (a) £5<br>(b) 50c | (a) £5<br>(b) 50c | **(a) £5******<br>**(b) 50c****** |
| 5.2 Wrth ofyn am gopi o ddogfen i'w darparu ar ddisg gyfrifiadurol neu ar ffurf electronig arall, ar gyfer pob copi o'r fath | £5 | £5 | **£5****** |
| 5.3 Wrth ofyn am gopi ardystiedig o ddogfen | £20 | £20 | **£25** |

* Mae ffi 2.1 wedi'i gyfrifo drwy gyfuno ffi 2.1 a 2.5 (£800 a £4,820) cyn cymhwyso'r codiad chwyddiant.

** Mae ffi 2.2 wedi'i gyfrifo drwy gyfuno ffi 2.2 a 2.5 (£1,600 a £4,820) cyn cymhwyso'r codiad chwyddiant.

*** Mae ffi 2.3 wedi cynyddu i adlewyrchu'r costau gweithredu a gweinyddol sy'n gysylltiedig ag achos sy'n cael ei gyfeirio. Yna mae wedi'i godi gan chwyddiant CPI.

**** Mae'r ffioedd hyn yn aros yr un fath, yn sgil talgrynnu'r swm â chwyddiant i lawr.

# Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol a amlinellir yn papur ymgynghori hwn.

**Cwestiwn 1:** A ydych yn cytuno gyda'r newidiadau arfaethedig i symleiddio ffioedd y Goruchaf Lys?

**Cwestiwn 2:** Ar wahân i ffi 2.3, a ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r strwythur ffioedd ar gyfer achosion datganoli, fel bod yr un ffi yn daladwy ar gyfer yr achosion hyn ag ar gyfer apeliadau sifil eraill? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 3:** A ydych yn cytuno y dylai'r ffi am achosion datganoli sy'n cael eu cyfeirio (ffi 2.3) gael ei chodi i ganiatáu i'r Goruchaf Lys adennill mwy o'r costau i weinyddu achosion o'r fath? A ydych yn cytuno y dylid ehangu cwmpas y ffi hon fel ei bod hefyd yn berthnasol i achosion sy'n cael eu cyfeirio ar gyfraith achosion yr UE a ddargedwir?

**Cwestiwn 4:** A ydych yn cytuno y dylem geisio cynyddu gwerth ffioedd y Goruchaf Lys yn ôl chwyddiant i gefnogi gwaith y Goruchaf Lys? Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 5:** A oes unrhyw ffioedd a amlinellir yn y papur hwn na ddylid eu cynyddu yn ôl chwyddiant hanesyddol?

**Cwestiwn 6:** A ydych yn cytuno gyda'r egwyddor y dylai ffioedd y Goruchaf Lys gael eu haddasu'n rheolaidd yn ôl chwyddiant er mwyn cefnogi sefydlogrwydd ariannol hirdymor y Goruchaf Lys. Rhowch resymau dros eich ateb.

**Cwestiwn 7:** Yn dilyn dadansoddiad o'r dystiolaeth sydd ar gael rydym wedi dod i'r casgliad na fydd y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp oherwydd y polisi talu ffioedd sydd ar waith yn y Goruchaf Lys. A ydych yn ystyried y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar unigolion â nodweddion gwarchodedig? Rhowch resymau dros eich ateb.

# Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a’r Gymraeg

### Asesiad Effaith

31. Mae Asesiad Effaith ffurfiol wedi'i baratoi ar gyfer y cynnig hwn ac wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn.

### Cydraddoldeb

32. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae’n ofynnol i’r Llywodraeth, fel rhan o ddatblygu polisi, i ystyried effaith cydraddoldeb ein cynnig. I grynhoi, rhaid i awdurdodau cyhoeddus sy’n destun y ddyletswydd cydraddoldeb, roi sylw i’r canlynol wrth arfer eu swyddogaethau:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a mathau eraill o ymddygiad a waherddir gan y Ddeddf;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt;
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

33. At ddibenion yr asesiad cydraddoldeb, y nodweddion gwarchodedig perthnasol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yw: hil; rhyw; anabledd; cyfeiriadedd rhywiol; crefydd a chred; oed; priodas a phartneriaeth sifil; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth.

34. Mae Datganiad Cydraddoldeb wedi’i baratoi ar gyfer y cynnig hwn ac wedi’i gyhoeddi ochr yn ochr â’r ymgynghoriad hwn.

### Y Gymraeg

35. Byddai’r cynnig hwn, o’i weithredu, hefyd yn effeithio ar y rheini sy’n siarad Cymraeg.

36. Gellir dod o hyd i fersiwn Saesneg o’r ddogfen hon yn https://www.gov.uk/government/consultations/reforming-fees-in-the-united-kingdom-supreme-court. Bydd copi Cymraeg o’r Asesiad Effaith a’r Datganiad Cydraddoldeb ar gael ar gais.

# Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi'ch hun

| | |
|---|---|
| Enw llawn | |
| Teitl swydd neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd etc.) | |
| Dyddiad | |
| Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol): | |
| Cyfeiriad | |
| | |
| Cod post | |
| Os hoffech i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐ (ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth, os yw'n wahanol i'r uchod | |
| | |
| | |

Os ydych chi'n cynrychioli grŵp, rhowch enw'r grŵp a rhowch grynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau rydych chi'n eu cynrychioli.

# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 27 Tachwedd 2023 at:

Fees Policy
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ

E-bost: Polisi Ffioedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder mojfeespolicy@justice.gov.uk

**Cwynion neu sylwadau**
Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynglŷn â’r broses ymgynghori, dylech gysylltu â’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

**Copïau ychwanegol**
Gellir cael copïau papur ychwanegol o’r ymgynghoriad hwn o’r cyfeiriad hwn, ac mae ar gael ar-lein hefyd https://consult.justice.gov.uk/

Gellir gofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill drwy e-bostio Polisi Ffioedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn mojfeespolicy@Justice.gov.uk

**Cyhoeddi ymateb**
Bydd papur sy’n crynhoi’r ymatebion i’r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi maes o law. Bydd y papur ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

**Grwpiau cynrychioliadol**
Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

**Cyfrinachedd**
Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i’r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â’r trefniadau mynediad at wybodaeth (y rhain yn bennaf yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 2018 (DPA), y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i’r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol y mae’n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy’n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd. O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam rydych yn ystyried bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn,

ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd o dan yr holl amgylchiadau. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymol ar y Weinyddiaeth.

Os nad ydych eisiau i'ch enw/hunaniaeth gorfforaethol gael ei wneud yn gyhoeddus yn y ffordd hwn, yna fe'ch cynghorir i ymateb yn ddienw (er enghraifft 'perchennog busnes lleol', 'aelod o'r cyhoedd').

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

Am fwy o wybodaeth, gweler Siarter Gwybodaeth Bersonol y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# Egwyddorion ymgynghori

Caiff yr egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018, a gellir dod o hyd iddynt fan hyn:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

© Hawlfraint y Goron 2020

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau fersiwn 3 o'r Drwydded Llywodraeth Agored ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi deunydd sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan y rhai sy'n dal yr hawlfraint honno.

Mae fersiynau o'r adroddiad hwn mewn fformatau eraill ar gael ar gais oddi wrth y Polisi Ffioedd, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn: mojfeespolicy@justice.gov.uk